FFURFLEN 1 ARWEINIAD AR GYFER CYNIGION PROSIECTAU GAN GYFUNDREFNAU

h.y. Awdurdodau Lleol, Asiantaethau Sector Cyhoeddus, Cyrff Ambarél / Canolog

LEADER+
Mae LEADER+ yn gynllun a ariannir gan UE ar gyfer datblygiad gwledig. Mae Cadwyn Clwyd yn weithredol yn ardaloedd gwledig Sir Y Fflint a Sir Ddinbych ac yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglen LEADER+ yn yr ardaloedd hynny. Gweler y map atodol.

Seilir y rhaglen LEADER+ ar yr egwyddorion o

- Weithio mewn Partneriaeth
- Gweithio yn uniongyrchol gyda chymunedau
- Arloesi

Mae strategaeth LEADER+ o fewn Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn ffocysu ar wneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a diwylliannol yr ardal.

CYNALADWYEDD
Mae pwyslais LEADER ar gynaladwyedd y prosiectau peilot a ymgymerir o fewn y rhaglen ynghyd â strategaethau ar gyfer parhad y prosiectau wedi cefnogaeth LEADER. Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae'r prosiect yn gynaladwy wedi cefnogaeth LEADER ddod i ben.

PARTNERIAETH
Rhaid i'r ymgeisydd ddangos arddull partneriaeth i ddatblygiad a gweithrediad prosiect. **Rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddangos fod grwpiau cymunedol yn rhan o'r prosiect yn ogystal â'u bônt wedi ymgynghori â'r grwpiau cymunedol e.e. Grwpiau Busnes, Cymdeithasau Twristiaeth, Siambrau Masnach, Cynghorau Cymuned, Grwpiau Amaethyddol neu Grwpiau Bwydydd Arbenigol**

ARIANNU
Mae LEADER+ yn benodol yn ariannu prosiectau refeniw. Fodd bynnag, efallai gellid ystyried prosiectau cyfalaf ar raddfa fach os oes yna wir brawf o arloesedd ac fod gan y prosiect ormod o risg i dderbyn cymorth gan ffynonellau prif ffrwd eraill.

CYFRADD LEADER+
Nid oes yna raddfa o gyfraniad penodol. Fodd bynnag, bydd ymgeiswyr sydd ag arian o gronfeydd eraill neu o'u cronfeydd eu hunain yn fwy tebygol o dderbyn nawdd.

GRWPIAU TARGEDU
Dylai prosiect ffocysu ar un neu fwy i'r grwpiau targed canlynol:

Busnesau Micro a Bach (yn cynnwys ffermydd)
Teuluoedd sy'n Ffermio
Y tan gyflogedig
Cymunedau Cymraeg eu Hiaith
Merched
Pobl Ifanc

Am arweiniad pellach neu am gymorth i gwblhau'r ffurflen gais, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â Cadwyn Clwyd ar 01824 705802.